

## ATODIAD B:

# CYNLLUN GWEITHREDU LHDTTC+ DRAFFT – ASESIAID O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

### 1. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Mae Llywodraeth Cymru am i bob person sy'n LHDTTC+ yng Nghymru fyw bywydau mor llawn â phosibl – i fod yn iach, yn hapus ac yn ddiogel. Bydd y Cynllun Gweithredu LHDTTC+ yn gweithredu fel y fframwaith cydlynol ar gyfer datblygu polisi LHDTTC+ ar draws y llywodraeth. Bydd yn nodi'r camau pendant y byddwn yn eu cymryd i wella amodau bywyd pobl LHDTTC+, i herio achosion o wahaniaethu ac i greu cymdeithas lle mae'n ddiogel i bobl LHDTTC+ fyw a charu yn agored ac yn rhydd fel nhw eu hunain.

Mae safbwynt Llywodraeth Cymru yn glir: hawliau dynol yw hawliau LHDTTC+. Mae ein Cynllun Gweithredu LHDTTC+ drafft yn arwydd o'n hymrwymiad i barchu, diogelu a sicrhau hawliau pobl LHDTTC+ yng Nghymru. Caiff ei ategu gan y dull seiliedig ar hawliau a nodwyd gan Uchel Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig<sup>1</sup> ac Arbenigwr Annibynnol y Cenhedloedd Unedig ar Gyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth Rhywedd<sup>2</sup>, ac mae'n helpu i sicrhau hawliau gwarantiedig i bobl LHDTTC+ drwy'r canlynol:

- Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Hawliau Dynol
- Y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol
- Y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol
- Y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Wahardd Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn

Wrth wneud hynny, bydd y Cynllun Gweithredu yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar brofiadau byw pobl LHDTTC+ ac yn gwella canlyniadau ar draws ystod eang o feysydd polisi gan gynnwys addysg, iechyd a chyfiawnder. Bydd yn gwneud cyfraniad mawr at y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei swyddogaethau o ran Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o dan adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Er mai dyma'r fframwaith polisi cyntaf i ganolbwyntio ar anghenion penodol pobl LHDTTC+ a'r ffactorau sy'n eu gwneud yn agored i niwed, mae'n rhan o ddull ehangach o ymdrin â chydraddoldeb prif ffrwd ac o amddiffyn hawliau dynol pawb yn well. O ganlyniad, dylid darllen y fframwaith ochr yn ochr

<sup>1</sup> Swyddfa Uchel Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig (2015) *Discrimination and violence against individuals based on their sexual orientation and gender identity Report of the Office of the United Nations High Commissioner for Human Rights* [https://www.un.org/en/ga/search/view\\_doc.asp?symbol=A/HRC/29/23&referer=/english/&Lang=E](https://www.un.org/en/ga/search/view_doc.asp?symbol=A/HRC/29/23&referer=/english/&Lang=E)

<sup>2</sup> Swyddfa Uchel Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig (2021) *Independent Expert on Sexual Orientation and Gender Identity* <https://www.ohchr.org/en/issues/sexualorientationgender/pages/index.aspx>

â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol, y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, y Fframwaith Gweithredu ar Anabledd, a'n Cynllun Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau.

**Cofnod o effeithiau yn ôl nodwedd warchoddedig:**

Nodwedd neu grŵp gwarchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
Oedran (meddylwch am wahanol grwpiau oedran)	<p>Cadarnhaol.</p> <p>Mae'r Cynllun Gweithredu LHDTc+ yn nodi ystod eang o gamau polisi ar draws cwrs bywyd.</p> <p>Mae'r Asesiad Effaith drafft ar Hawliau Plant yn nodi'r effaith ar blant a phobl ifanc dan 18 oed.</p> <p>Mae'r Cynllun Gweithredu LHDTc+ hefyd wedi ystyried anghenion pobl LHDTc+ hŷn ac mae'n nodi ystod o gamau gweithredu (yn enwedig rhai sy'n ymwneud â gofal iechyd LHDTc+ i gefnogi'r dull seiliedig ar hawliau a bennwyd gan Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn. Ei nod yw sicrhau bod pobl LHDTc+ hŷn yn teimlo bod eu hurddas yn cael ei ddiogelu, bod eu hunaniaeth yn cael ei pharchu a'u bod yn gallu byw eu bywydau i'r eithaf. Er enghraifft, dylai cyflawni'r camau gweithredu arfaethedig helpu i wella dealltwriaeth y gweithlu o anghenion pobl hŷn LHDTc+ a dylai gael effaith gadarnhaol ar eu</p>	<p>Tan 2021, ni wnaeth y cyfrifiad gasglu gwybodaeth am gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd.</p> <p>Yn ôl ffigurau amcangyfrifedig y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn 2019, fe wnaeth cyfran poblogaeth 16 oed a throsodd y DU a nododd eu bod yn heterorywiol neu'n syth ostwng o 94.6% yn 2018 i 93.7% yn 2019. Amcangyfrifir bod 2.7% o boblogaeth y DU sy'n 16 oed a throsodd wedi nodi eu bod yn lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol (LHD) yn 2019, cynnydd o 2.2% yn 2018. Pobl iau (16 i 24 oed) oedd yn fwyaf tebygol o nodi eu bod yn LHD yn 2019 (6.6% o'r holl bobl ifanc 16 i 24 oed, a chynnydd o 4.4% yn 2018); gwelwyd cynnydd hefyd yn nifer y bobl hŷn (65 oed a throsodd) a nododd eu bod yn LHD, o 0.7% i 1.0% yn y categori oedran hwn. Mae'r wybodaeth hon yn ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol yn unig ac nid hunaniaeth rhywedd<sup>3</sup>.</p> <p>Wrth ddatblygu Adroddiad y Panel Arbenigol Annibynnol a'r cynllun, ystyriwyd anghenion pobl LHDTc+ hŷn a'u cynnwys mewn penderfyniadau drwy grŵp trafod bord gron rhithiol penodol. Roedd rhai o'r negeseuon allweddol a ddeilliodd o'r trafodaethau hyn yn canolbwyntio ar yr angen i wella profiadau byw pobl LHDTc+ hŷn o leoliadau iechyd a gofal</p>	Bydd adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei ddefnyddio i lywio datblygiad yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ymhellach.

<sup>3</sup> Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021) *Sexual Orientation, DU: 2019*  
<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/sexuality/bulletins/sexualidentityuk/2019>

Nodwedd neu grŵp gwarchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
	<p>profiadau o wasanaethau iechyd a chymdeithasol.</p>	<p>cymdeithasol, gan ymdrin â thrawma posibl therapi trosi a mynd i'r afael ag unigrwydd. Mae ymchwil yn awgrymu bod pobl LHDTC+ hŷn, yn enwedig pobl hŷn trawsryweddol ac anneuaid, yn fwy tebygol o wynebu anawsterau o ran cael mynediad at ofal iechyd a chymdeithasol priodol a derbyn y gofal hwn<sup>4</sup>.</p> <p>Mae pobl hŷn trawsryweddol yn fwy tebygol o fod wedi profi rhyw fath o therapi trosi fel y'i gelwir<sup>5</sup>.</p>	
<p>Anabledd (meddylwch am wahanol fathau o anabledd)</p>	<p>Cadarnhaol.</p> <p>Er mai dyma'r fframwaith polisi cyntaf i ganolbwyntio ar anghenion penodol pobl LHDTC+ a'r ffactorau sy'n eu gwneud yn agored i niwed, mae'n rhan o ddull ehangach o ymdrin â chydardoldeb prif ffrwd ac o amddiffyn hawliau dynol pawb yn well. O ganlyniad, dylid darllen y fframwaith ochr yn ochr â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol, y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, y Fframwaith Gweithredu ar gyfer Anabledd, a'n Cynllun Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau.</p>	<p>O'r 108,000 o ymatebwyr i Arolwg Cenedlaethol LHDT y DU yn 2017, nododd 16.8% eu bod yn anabl<sup>6</sup>.</p> <p>Wrth ddatblygu Adroddiad y Panel Arbenigol Annibynnol a'r cynllun, ystyriwyd anghenion pobl LHDTC+ hŷn a'u cynnwys mewn penderfyniadau drwy grŵp trafod bord gron rhithiol penodol. Roedd rhai o'r negeseuon allweddol a ddeilliodd o'r trafodaethau hyn yn canolbwyntio ar yr angen i wella dealltwriaeth o effaith gronol hunaniaethau a nodweddion gwarchoddedig sy'n croestorri, mynd i'r afael â stereoteipiau sy'n awgrymu nad yw pobl anabl yn gallu cael perthynas agos, gwella cynhwysiant cymdeithasol pobl anabl LHDTC+ a sicrhau mynediad at wasanaethau iechyd rhywiol. Mae effaith bosibl Covid-19 hyd yn oed yn fwy amlwg</p>	<p>Bydd adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei ddefnyddio i lywio datblygiad yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ymhellach.</p>

<sup>4</sup> Willis, P. B. , Raithby, M., Dobbs, C., Evans, E., & Bishop, J-A. (2020). 'I'm going to live my life for me': trans ageing, care and older trans and gender non-conforming adults' expectations of and concerns for later life'. *Ageing and Society*, 0(0), 1-22. <https://doi.org/10.1017/S0144686X20000604>

<sup>5</sup> Swyddfa Cydraddoldebau Llywodraeth y DU (2018) *National LGBT Survey Research Report* [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/721704/LGBT-survey-research-report.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/721704/LGBT-survey-research-report.pdf)

<sup>6</sup> Swyddfa Cydraddoldebau Llywodraeth y DU (2018) *National LGBT Survey Research Report* [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/721704/LGBT-survey-research-report.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/721704/LGBT-survey-research-report.pdf)

Nodwedd neu grŵp gwarchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
		ymhlith rhai grwpiau LHDT+ fel pobl anabl LHDT+ <sup>7</sup> .	
Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)	<p>Cadarnhaol.</p> <p>Mae'r Cynllun Gweithredu LHDT+ yn nodi ystod eang o fesurau polisi i wella bywydau pobl drawsryweddol, pobl anneuaid a phobl sy'n amrywiol o ran rhywedd yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys gwella cydnabyddiaeth o hunaniaethau sy'n amrywiol o ran rhywedd, gwahardd therapi trosi, mynd i'r afael â throseddau casineb a gwella mynediad i wasanaethau gofal iechyd traws-benodol.</p>	<p>Rhodddwyd 6010 o Dystysgrifau Cydnabod Rhywedd llawn ers i Ddeddf Cydnabod Rhywedd 2004 ddod i rym. Rhodddwyd 427 o'r rhain yn 2020/2021<sup>8</sup>.</p> <p>Nid oes data cadarn ar boblogaeth drawsryweddol y DU. Mae amcangyfrifon bras yn awgrymu bod 200,000-500,000 o bobl drawsryweddol yn y DU<sup>9</sup>.</p> <p>Mae ffigurau'n dangos bod cynnydd amlwg wedi bod yn nifer y digwyddiadau troseddau casineb a gofnodwyd a oedd yn seiliedig ar hunaniaeth rhywedd amrywiol. Cafwyd 820 o ddigwyddiadau yn 2015/16 a 2540 yn 2019/2020 ledled Cymru a Lloegr. Mae hyn yn gynydd o 32%<sup>10</sup>.</p> <p>Mae problemau iechyd meddwl a wynebhir gan bobl drawsryweddol yn gysylltiedig â'r rhagfarn a'r gwahaniaethu y maent yn eu profi<sup>11</sup>.</p> <p>Mae trosi i'r rhywedd y mae'r person yn uniaethu ag ef yn helpu i ddatrys</p>	Bydd adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei ddefnyddio i lywio datblygiad yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ymhellach

<sup>7</sup> Y Sefydliad LHDT (2020). *The Impact of Covid-19 Pandemic on LGBT Communities in the UK*.

<https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/lgbt-website-media/Files/7a01b983-b54b-4dd3-84b2-0f2ecd72be52/Hidden%2520Figures-%2520The%2520Impact%2520of%2520the%2520Covid-19%2520Pandemic%2520on%2520LGBT%2520Communities.pdf>

<sup>8</sup> Gweinyddiaeth Gyfiawnder y DU (2021) *Official Statistics Tribunal Statistics Quarterly, January to March 2021*

<https://www.gov.uk/government/statistics/tribunal-statistics-quarterly-january-to-march-2021/tribunal-statistics-quarterly-january-to-march-2021#gender-recognition-certificates>

<sup>9</sup> Swyddfa Cydraddoldebau Llywodraeth y DU (2018) *Trans People in the UK*

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/721642/GEO-LGBT-factsheet.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/721642/GEO-LGBT-factsheet.pdf)

<sup>10</sup> Swyddfa Gartref y DU (2020) *Official Statistics: Hate crime, England and Wales, 2019 to 2020*

<https://www.gov.uk/government/statistics/hate-crime-england-and-wales-2019-to-2020>

<sup>11</sup> Robles, R., Fresan, A., Vega-Ramirez, H., Cruz-Islas, J., Rodriguez-Perez, V., Dominguez-Martinez and T. (2016) 'Removing transgender identity from the classification of mental disorders: a Mexican field study for ICD-11'. *The Lancet Psychiatry*. 3(9), 850-850

[https://doi.org/10.1016/S2215-0366\(16\)30165-1](https://doi.org/10.1016/S2215-0366(16)30165-1)

Nodwedd neu grŵp gwarchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
		<p>tralldod a phroblemau iechyd meddwl<sup>12</sup>.</p> <p>Er bod agweddau'r cyhoedd at bobl drawsryweddol yn gadarnhaol ar y cyfan<sup>13</sup>, rydym yn cydnabod y gellid ystyried bod posibilrwydd i'r Cynllun Gweithredu LHDTTC+ drafft (yn enwedig polisïau cydnabod trawsrywedd a thraws-gynhwysol) gael effaith negyddol ar rai hawliau'r rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig eraill.</p> <p>Prif fyrdwn y pryderon a fynegwyd gan rai pobl yw'r dryswch canfyddedig rhwng 'ryw' a 'rhywedd' ym mholisi'r llywodraeth a sut y gallai'r camddehongli'r nodweddion hyn (a ddiogelir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) fod yn gam nol o ran amddiffyniadau i fenywod a merched. Mae enghreifftiau o'r pryderon a fynegwyd ac a ystyriwyd eisoes yn cynnwys ofnau y byddai cyfyngiadau ar fynediad i fannau diogel menywod gan arwain at fwy o risg o gamdriniaeth i fenywod, cyfyngiadau ar ryddid mynegiant ac erydiad ar hawliau menywod a merched.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y pryderon hyn ac mae o'r farn na fydd cefnogaeth i bobl drawsryweddol a chyhoeddi Cynllun Gweithredu LHDTTC+ yn debygol o arwain at erydu hawliau menywod a merched. Yn hytrach mae'n rhan o'n dull o gryfhau mesurau amddiffyn cydraddoldeb a hawliau dynol i bawb. Bydd ymestyn yr</p>	

<sup>12</sup> Dhejne, C., Vlerken, R.V., Heylens, G. and Arcelus, J. (2016) 'Mental health and gender dysphoria: a review of the literature'. *International Review of Psychiatry*. 28(1). p.44-57 <http://hdl.handle.net/1854/LU-7081076>

<sup>13</sup> UN OHCHR (1979) *Articles 1 and 2 of UN CEDAW* <https://www.ohchr.org/EN/ProfessionalInterest/Pages/CEDAW.aspx>

Nodwedd neu grŵp gwarchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
		amddiffyniadau i bobl anneauaid a thrawsryweddol drwy'r Cynllun Gweithredu LHDT+ yn cyd-fynd â'r rhwymedigaethau a bennir gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod <sup>14 15</sup> . Mae Arbenigwr Annibynnol y Cenhedloedd Unedig ar Gyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth Rhywedd yn cefnogi'r safbwynt hwn hefyd. Fodd bynnag, bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y cynllun drafft yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisi ymhellach.	
Beichiogrwydd a mamolaeth	Cadarnhaol. Mae'r Cynllun Gweithredu LHDT+ drafft yn ymrwmo i barhau i gefnogi teuluoedd LHDT+ pan fyddant yn defnyddio gwasanaethau mamolaeth neu ffrwythlondeb.	Mae adroddiad y Panel Arbenigol Annibynnol LGBTQ+ yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n cymryd camau i sicrhau bod gwasanaethau mamolaeth a ffrwythlondeb yn hygyrch ac yn syml i bobl LHDT+ eu defnyddio.	Amherthnasol
Hil (gan gynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid)	Cadarnhaol. Mae'r Cynllun Gweithredu LHDT+ wedi ystyried cymunedau LHDT+ a Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol sy'n croestorri. Dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. Mae'r Cynllun Gweithredu LHDT+ yn nodi camau gweithredu	O'r 108,000 o ymatebwyr i Arolwg Cenedlaethol LHDT y DU yn 2017, nododd 92.4% eu bod o gefndir Gwyn, 3.4% o grwpiau ethnig Cymysg/Lluosog, 1.6% o gefndir Asiaidd, 0.9% o gefndir Du <sup>16</sup> .  Fe wnaeth nifer fach o ymatebwyr i'r Arolwg LHDT Cenedlaethol (86) alw ar y Llywodraeth i wneud mwy i gefnogi ceiswyr lloches LHDT+ – er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu	Bydd adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei ddefnyddio i lywio datblygiad yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ymhellach

<sup>14</sup> Swyddfa Uchel Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig (1979) *Articles 1 and 2 of UN CEDAW*  
<https://www.ohchr.org/EN/ProfessionalInterest/Pages/CEDAW.aspx>

<sup>15</sup> Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod (2010) *General Recommendation No. 28 on the core obligations of State parties under article 2 of the Convention on the Elimination of All Forms of Discrimination against Women*  
<https://documents-dds-ny.un.org/doc/UNDOC/GEN/G10/472/60/PDF/G1047260.pdf?OpenElement>

<sup>16</sup> Swyddfa Cydraddoldebau Llywodraeth y DU (2018) *National LGBT Survey Research Report*.  
[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/721704/LGBT-survey-research-report.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/721704/LGBT-survey-research-report.pdf)

Nodwedd neu grŵp gwarchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
	<p>penodol i wella cysylltiadau â'r heddlu, mynd i'r afael â throseddau casineb a chefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches LHDTC+ yn well. Bydd gweithredu'r camau hyn yn gwella'r gydnabyddiaeth o ffoaduriaid a cheiswyr lloches LGBTQ+ ac yn sicrhau bod trefniadau tai a chymorth priodol yn adlewyrchu eu hanghenion yn well – a fydd yn fuddiol o ran amgylcheddau byw, diogelwch personol, iechyd ac iechyd meddwl a mynediad at wasanaethau.</p>	<p>troi i ffwrdd a'u hanfon yn ôl i wledydd sy'n gwahaniaethu yn erbyn pobl LHDT<sup>17</sup>.</p> <p>Wrth ddatblygu Adroddiad y Panel Arbenigol Annibynnol a'r cynllun, ystyriwyd anghenion pobl Dduon, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a'u cynnwys mewn penderfyniadau drwy grŵp trafod rhithiol penodol. Roedd rhai negeseuon allweddol a ddeilliodd o'r trafodaethau hyn yn canolbwyntio ar yr angen i wella cysylltiadau'r Heddlu â phobl LHDTC+ a chymunedau ethnig lleiafrifol, gwella dealltwriaeth o hunaniaethau sy'n croestorri, gwella'r gefnogaeth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches LHDTC+ , a gwella gwasanaethau iechyd meddwl.</p> <p>Mae effaith bosibl Covid-19 hyd yn oed yn fwy amlwg ymhlith rhai grwpiau LHDTC+ fel pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol<sup>18</sup>.</p>	
Crefydd, cred a diffyg cred	<p>Mae'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn ystyried hunaniaethau sy'n croestorri o ran credoau, ffydd a rhyddid crefyddol. Mae'r Cynllun yn nodi camau gweithredu i wella cynhwysiant LHDTC+ mewn cymunedau ffydd. Gall cynnig i wahardd arferion therapi trosi gwtogi ar hawl</p>	<p>Nododd 69% o'r holl ymatebwyr i'r Arolwg Cenedlaethol LDHT nad oedd ganddynt unrhyw grefydd. Nododd 17.6% eu bod yn Gristnogol tra bod 1.4% yn Fwdhaidd, 0.9% yn Iddewon a 0.7% yn Fwslimaidd<sup>19</sup>. Roedd profiadau pobl LHDT o sefydliadau crefyddol fel arfer yn negyddol – diffyg cefnogaeth mewn ysgolion ffydd, anoddefgarwch canfyddedig</p>	<p>Bydd adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei ddefnyddio i lywio datblygiad yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ymhellach</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i drafod â chymunedau</p>

<sup>17</sup> Swyddfa Cydraddoldebau Llywodraeth y DU (2018) *National LGBT Survey Research Report*. [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/721704/LGBT-survey-research-report.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/721704/LGBT-survey-research-report.pdf)

<sup>18</sup> Ruprecht, MM; Wang, X; Johnson, AK; et al. (2020). 'Evidence of Social and Structural COVID-19 Disparities by Sexual Orientation, Gender Identity, and Race/Ethnicity in an Urban Environment'. *Journal of Urban Health* <https://link.springer.com/article/10.1007/s11524-020-00497-9>

<sup>19</sup> Swyddfa Cydraddoldebau Llywodraeth y DU (2018) *National LGBT Survey Research Report*. [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/721704/LGBT-survey-research-report.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/721704/LGBT-survey-research-report.pdf)

Nodwedd neu grŵp gwarchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
	<p>amodol i arddangos cred grefyddol neu athronyddol. Fodd bynnag, gellir cyfiawnhau ymyrraeth bosibl â'r hawl amodol hon mewn cymdeithas ddemocrataidd ar sail diogelwch y cyhoedd, iechyd neu foesau, neu ddiogelu hawliau a rhyddid pobl eraill.</p>	<p>mewn cymunedau crefyddol a phrofiadau o therapi trosi<sup>20</sup>.</p> <p>Gall y Cynllun Gweithredu LHDTC+ drafft effeithio ar faterion sy'n ymwneud â rhyddid mynegiant ar sail cred a ffydd. Fodd bynnag, er bod yr hawl i ddal cred yn hawl absoliwt, mae'r hawl i arddangos cred yn un amodol.</p> <p>Gall cynnig o fewn y cynllun drafft i wahardd arferion therapi trosi gyfyngu ar ryddid crefyddol a rhoi arweinwyr ffydd mewn perygl o gael eu herlyn. Fodd bynnag, mae safbwynt Llywodraeth Cymru yn glir - mae unrhyw ymdrechion i geisio newid cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd unigolyn drwy 'therapi trosi' yn anghywir ac yn gwbl annerbyniol. Gall yr arferion hyn achosi poen a dioddefaint difrifol i bobl LHDTC+, gan arwain yn aml at drawma corfforol a seicolegol hirdymor. Rydym am i bob person LHDTC+ yng Nghymru deimlo'n ddiogel a gallu byw'n agored fel eu hunain. Felly, mae'r cynllun drafft yn ceisio defnyddio'r holl bwerau sydd ar gael i wahardd therapi trosi (gan gymryd i ystyriaeth a gweithio gyda mesurau polisi tebyg ar draws y gwledydd datganoledig) er mwyn amddiffyn pobl LHDTC+ ac atal niwed, camdriniaeth a thrawma yn y dyfodol. Caiff hyn ei gefnogi gan argymhellion hawliau dynol a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Uchel Gomisiynydd Hawliau Dynol<sup>21</sup> ac</p>	<p>ffydd yng Nghymru. Mae cam gweithredu arfaethedig yn y cynllun drafft yn nodi ymrwymiad i sicrhau gwell cynrychiolaeth o blith pobl LHDTC+ ar fforymau cydraddoldeb eraill. Bydd hyn o help wrth ystyried hunaniaethau sy'n croestorri ac yn meithrin cysylltiadau cadarnhaol rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd arbennig o warchoddedig â'r rhai nad oes ganddynt nodwedd o'r fath.</p>

<sup>20</sup> Swyddfa Cydraddoldebau Llywodraeth y DU (2018) *National LGBT Survey Research Report*. [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/721704/LGBT-survey-research-report.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/721704/LGBT-survey-research-report.pdf)

<sup>21</sup> Swyddfa Uchel Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig (2015) *Discrimination and violence against individuals based on their sexual orientation and gender identity Report of the Office of the United Nations High Commissioner for Human Rights* [https://www.un.org/en/ga/search/view\\_doc.asp?symbol=A/HRC/29/23&referer=/english/&Lang=E](https://www.un.org/en/ga/search/view_doc.asp?symbol=A/HRC/29/23&referer=/english/&Lang=E)



Nodwedd neu grŵp gwarchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
		<p>Arbenigwr Annibynnol y Cenhedloedd Unedig ar Gyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth Rhywedd <sup>22</sup>.</p> <p>Gallai'r Cynllun Gweithredu LGBTQ+ hefyd wynebu heriau ynghylch cynnwys ein hymrwymiad parhaus i sefydlu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n trafod LHDTTC+ yn y cwricwlwm newydd. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod gan bob dysgwyr yr hawl i gael mynediad llawn i'r cwricwlwm newydd. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cynnal ymgynghoriad ac asesiad effaith sylweddol ar y cynnig polisi hwn yng nghyd-destun rhyddid a ffydd grefyddol. Rydym yn parhau i weithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid LHDTTC+ a chymunedau ffydd i gyd-gynhyrchu Codau Ymarfer newydd ar gyfer 'Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb' a 'Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg'.</p> <p>Dyfarnodd tribiwnlys diweddar yn Llundain fod credoau rhywedd-feirniadol yr hawlydd yn gyfystyr â chred athronyddol o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010 (Forstater v CDG Europe UKEAT/0105/20/JOJ). Mae rhai'n pryderu y bydd y dyfarniad yn gadael grwpiau ymylol (yn enwedig pobl drawsryweddol) yn fwy agored i wahaniaethu ac aflonyddu. Roedd y tribiwnlys apêl yn glir iawn wrth ddweud er bod yr hawliwr wedi cael amddiffyniad rhag gwahaniaethu mewn perthynas â'i nodwedd warchoddedig sy'n gysylltiedig â'i chred, y bydd serch</p>	

<sup>22</sup> Arbenigwr Annibynnol y Cenhedloedd Unedig ar Gyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth Rhywedd (2020) *Practices of so-called "conversion therapy": Report of the Independent Expert on protection against violence and discrimination based on sexual orientation and gender identity* <https://undocs.org/A/HRC/44/53>

Nodwedd neu grŵp gwarchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
		<p>hynny'n parhau i fod yn ddarostyngedig i'r gwaharddiadau ar wahaniaethu ac aflonyddu sy'n berthnasol i bawb arall. Mae'r dyfarniad yn ei gwneud yn glir nad yw'r penderfyniad yn golygu bod pobl drawsryweddol yn destun hawliau llai ac nad yw'n golygu bod pobl â safbwyntiau beirniadol ar sail rhywedd yn rhydd i gamryweddau neu wahaniaethu yn erbyn pobl drawsryweddol.</p> <p>Ni fydd cefnogaeth i bobl drawsryweddol a chyhoeddi Cynllun Gweithredu LHDTTC+ yn arwain at erydu hawliau unrhyw grŵp penodol, yn hytrach mae'n rhan o'n dull o gryfhau mesurau amddiffyn cydraddoldeb a hawliau dynol i bawb.</p>	
Rhywedd	<p>Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau negyddol. Nid yw'r cynllun yn ceisio diwygio darpariaethau sy'n ymwneud â manau unrhyw. Mae Atodlen 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 eisoes yn caniatáu i bobl drawsryweddol gael eu heithrio o wasanaethau unrhyw mewn rhai amgylchiadau<sup>23</sup>. Fodd bynnag, dylid ystyried eithriad o'r fath fesul achos a dylid ond ei arfer os yw'n ffordd gymesur o gyflawni nod dilys.</p>	<p>Er bod agweddau'r cyhoedd at bobl drawsryweddol yn gadarnhaol ar y cyfan<sup>24</sup>, rydym yn cydnabod y gellid ystyried bod posibilrwydd i'r Cynllun Gweithredu LHDTTC+ drafft (yn enwedig polisiau cydnabod trawsrywedd a thraws-gynhwysol) gael effaith negyddol ar rai hawliau'r rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig eraill.</p> <p>Prif fyrddwn y pryderon a fynegwyd gan rai pobl yw'r dryswch canfyddedig rhwng 'ryw' a 'rhywedd' ym mholisi'r llywodraeth a sut y gallai camddehongli'r nodweddion hyn (a ddiogelir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) fod yn gam nol o ran amddiffyniadau i fenywod a</p>	Bydd adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei ddefnyddio i lywio datblygiad yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ymhellach

<sup>23</sup> Para. 28, Atodlen 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/schedule/3>

<sup>24</sup> Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2020) *Attitudes to transgender people* [https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/attitudes\\_to\\_transgender\\_people.pdf](https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/attitudes_to_transgender_people.pdf)

Nodwedd neu grŵp gwarchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
		<p>merched. Mae enghreifftiau o'r pryderon a fynegwyd ac a ystyriwyd eisoes yn cynnwys ofnau y byddai cyfyngiadau ar fynediad i fannau diogel menywod gan arwain at fwy o risg o gamdriniaeth i fenywod, cyfyngiadau ar ryddid mynegiant ac erydu hawliau menywod a merched.</p> <p>O ran bod traws-gynhwysiant yn cyfyngu ar fynediad i fannau diogel menywod, mae diffyg tystiolaeth ynghylch effeithiau gwirioneddol traws-gynhwysiant mewn gwasanaethau<sup>25</sup>.</p> <p>Nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi unrhyw dystiolaeth i gyfiawnhau eithrio menywod trawsryweddol o wasanaethau neu fannau yn gyffredinol, a gwrthodwyd caniatâd i AEA v EHRC adolygu'n farnwrol y canllawiau'n ymwneud â gwasanaethau un rhyw. Yn hytrach, mae tystiolaeth yn amlygu'r angen am asesiadau unigol a theilwra gwasanaethau ar gyfer anghenion pob unigolyn<sup>26</sup>. Mae Atodlen 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 eisoes yn caniatáu i bobl drawsryweddol gael eu heithrio o wasanaethau un rhyw mewn rhai amgylchiadau<sup>27</sup>. Fodd bynnag, dylid ystyried eithriad o'r fath fesul achos a dim ond fel ffordd gymesur o gyflawni nod dilys. Ategir hyn gan farn Arbenigwr Annibynnol y Cenhedloedd Unedig ar Gyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth Rhywedd<sup>28</sup>.</p>	

<sup>25</sup> Gottschalk, L. (2009) 'Transgendering women's space: A feminist analysis of perspectives from Australian women's services'. *Women's Studies International Forum*, 32(3): 167-178

<sup>26</sup> Dunne, P. (2017) '(Trans)forming single gender services and communal accommodations'. *Social and Legal Studies*, 26(5).

<sup>27</sup> Para. 28, Atodlen 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 - <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/schedule/3>

<sup>28</sup> Arbenigwr Annibynnol y Cenhedloedd Unedig ar Gyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth Rhywedd (2021) *The law of inclusion*. <https://undocs.org/A/HRC/47/27> para. 40.

Nodwedd neu grŵp gwarchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
		<p><i>“the evidence does not support the contention that legal recognition of gender identity can be seen as contrary to the struggle for equality, to the rights of women or to the rights of cis women. The Independent Expert is not persuaded by the allegation that these arguments are grounded in human rights-based approaches. They overwhelmingly appear to rely on anecdotal evidence, some of which would relate to some allegations of abuse, but most of which build on deeply discriminatory stereotypes of trans and gender-diverse persons, and overwhelmingly of trans women. This is the case, for example, of the claim that legal recognition of trans women per se threatens safe spaces, which appears to draw on stigma about predatory determinism. Statistical evidence or analysis does not support the contention that legal recognition of trans girls represents a blanket threat to development through sports, a notion that circularly seeks to rely upon but also to justify the harmful and offensive contention that trans girls are not girls. The idea that legal recognition of the existence of trans women creates a threat of erasure of the concerns of cis women disregards the duty of the State to consider all relevant angles of intersectional analysis, including gender identity, in the formulation of policy.”<sup>29</sup></i></p> <p>Wrth ystyried pryderon posibl y bydd traws-gynhwysiant yn arwain at y risgiau cynyddol o gamdriniaeth i fenywod, nid yw Llywodraeth Cymru</p>	

<sup>29</sup> Arbenigwr Annibynnol y Cenhedloedd Unedig ar Gyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth Rhywedd (2021) *The law of inclusion*. <https://undocs.org/A/HRC/47/27>

Nodwedd neu grŵp gwarchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
		<p>wedi dod o hyd i3 unrhyw dystiolaeth sy'n cefnogi'r honiad bod menywod trawsryweddol yn fwy tebygol na menywod nad ydynt yn drawsryweddol o ymosod yn rhywiol ar fenywod eraill mewn mannau i fenywod yn unig. Mae diffyg tystiolaeth (cyfreithiol, meddygol neu fel arall) i gefnogi'r nodweddiad 'gwyrddroedig' neu rheibus hwn o fenywod trawsryweddol<sup>30</sup>. Gallai fod pryderon ychwanegol y gallai dynion rheibus sy'n honni eu bod yn fenywod trawsryweddol geisio cael mynediad i fannau a gwasanaethau i fenywod yn unig am resymau maleisus. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi unrhyw dystiolaeth sy'n cefnogi cysylltiad rhwng mannau i fenywod yn unig sy'n draws-gynhwysol, a dynion cisryweddol yn honni eu bod yn drawsryweddol er mwyn cael mynediad i'r mannau i gyflawni trais rhywiol.</p> <p>Gall y Cynllun Gweithredu LHDTTC+ drafft effeithio ar faterion sy'n ymwneud â rhyddid mynegiant ar sail cred a ffydd. Fodd bynnag, er bod yr hawl i ddal cred yn hawl absoliwt, mae'r hawl i arddangos cred yn un amodol.</p> <p>Dyfarnodd tribiwnlys diweddar yn Llundain fod credoau rhywedd-feirniadol yr hawlydd yn gyfystyr â chred athronyddol o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010 (Forstater v CDG Europe UKEAT/0105/20/JOJ). Mae rhai'n pryderu y bydd y dyfarniad yn gadael grwpiau ymylol (yn enwedig pobl drawsryweddol) yn</p>	

<sup>30</sup> Eckes, S. (2017) 'The restroom and locker room wars: Where to pee or not to pee'. *Journal of LGBT Youth*, 14(3): 247-265.

Nodwedd neu grŵp gwarchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
		<p>fwy agored i wahaniaethu ac aflonyddu. Roedd y tribiwnlys apêl yn glir iawn wrth ddweud er bod yr hawliwr wedi cael amddiffyniad rhag gwahaniaethu mewn perthynas â'i nodwedd warchoddedig sy'n gysylltiedig â'i chred, y bydd serch hynny'n parhau i fod yn ddarostyngedig i'r gwaharddiadau ar wahaniaethu ac aflonyddu sy'n berthnasol i bawb arall. Mae'r dyfarniad yn ei gwneud yn glir nad yw'r penderfyniad yn golygu bod pobl drawsryweddol yn destun hawliau llai ac nad yw'n golygu bod pobl â safbwyntiau beirniadol ar sail rhywedd yn rhydd i gamryweddau neu wahaniaethu yn erbyn pobl drawsryweddol.</p> <p>Ni fydd cefnogaeth i bobl drawsryweddol a chyhoeddi Cynllun Gweithredu LHDTTC+ yn arwain at erydu hawliau unrhyw grŵp penodol, yn hytrach mae'n rhan o'n dull o gryfhau mesurau amddiffyn cydraddoldeb a hawliau dynol i bawb. Bydd ymestyn yr amddiffyniadau i bobl anneuaid a thrawsryweddol drwy'r Cynllun Gweithredu LHDTTC+ yn cyd-fynd â'r rhwymedigaethau a bennir gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod<sup>31</sup> <sup>32</sup>. Mae Arbenigwr Annibynnol y Cenhedloedd Unedig ar Gyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth Rhywedd yn cefnogi'r safbwynt hwn, gan ddod i'r casgliad canlynol yn eu</p>	

<sup>31</sup> Swyddfa Uchel Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig (1979) *Articles 1 and 2 of UN CEDAW*  
<https://www.ohchr.org/EN/ProfessionalInterest/Pages/CEDAW.aspx>

<sup>32</sup> Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod (2010) *General Recommendation No. 28 on the core obligations of State parties under article 2 of the Convention on the Elimination of All Forms of Discrimination against Women*  
<https://documents-dds-ny.un.org/doc/UNDOC/GEN/G10/472/60/PDF/G1047260.pdf?OpenElement>

Nodwedd neu grŵp gwarchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
		<p>hadroddiad thematig ar hunaniaeth ryweddol:</p> <p><i>“The work to address and ultimately eradicate violence and discrimination based on sexual orientation and gender identity is not in opposition to the human rights of women; on the contrary, these areas of concern are largely overlapping and conceptually, socioeconomically, politically and legally reinforce each other.</i></p> <p><i>... States [should] provide access to legal recognition of gender identity in a manner consistent with the rights to freedom from discrimination, equal protection of the law, privacy, identity and freedom of expression, and adopt all necessary measures so that such recognition:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li><i>a) Is based on self-determination by the applicant;</i></li> <li><i>b) Is a simple administrative process;</i></li> <li><i>c) Is not connected with abusive requirements, such as medical certification, surgery, treatment, sterilization or divorce;</i></li> <li><i>d) Includes the acknowledgement and recognition of non-binary identities in their full diversity and specificity;</i></li> <li><i>e) Ensures that minors have access to</i></li> </ul>	

Nodwedd neu grŵp gwarchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
		<p><i>recognition of their gender identity.</i>"<sup>33</sup></p> <p>Fodd bynnag, bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y cynllun drafft yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisi ymhellach.</p>	
<p>Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)</p>	<p>Cadarnhaol.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru am i bob person LHDTC+ yng Nghymru fyw bywydau mor llawn â phosibl – i fod yn iach, yn hapus ac yn ddiogel. Bydd y Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn gweithredu fel y fframwaith cydlynol ar gyfer datblygu polisi LHDTC+ ar draws y llywodraeth. Bydd yn nodi'r camau pendant y byddwn yn eu cymryd i wella amodau bywyd pobl LHDTC+, i herio achosion o wahaniaethu ac i greu cymdeithas lle mae'n ddiogel i bob LHDTC+ fyw a charu yn agored ac yn rhydd fel nhw eu hunain. Bydd y camau gweithredu'n cynnwys mesurau polisi ar draws ystod eang o feysydd gan gynnwys cryfhau amddiffyniadau hawliau dynol, addysg, diogelwch personol, iechyd a gofal cymdeithasol, diwylliant a chwaraeon, a'r gweithle.</p>	<p>Nododd adroddiad y Panel Arbenigol Annibynnol LGBTQ+ anghydraddoldebau sylweddol ar draws sawl maes bywyd, gan gynnwys amddiffyniadau cyfreithiol, diogelwch, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, tai, cynhwysiant cymunedol, y gweithle ac adfer wedi Covid-19.</p> <p>Prin yw'r data poblogaeth sydd ar gael ar gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd. Dylai'r sefyllfa hon newid yn y dyfodol oherwydd bod cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd wedi'u cynnwys yng ngofynion Cyfrifiad 2021. Yn ôl ffigurau amcangyfrifedig y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn 2019, fe wnaeth cyfran poblogaeth 16 oed a throsodd y DU sy'n ystyried eu bod yn heterorywiol neu'n syth ostwng o 94.6% yn 2018 i 93.7% yn 2019. Amcangyfrifwyd bod 2.7% o boblogaeth 16 oed a throsodd y DU yn ystyried eu bod yn lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol (LHD) yn 2019, sy'n gynydd o 2.2% yn 2018<sup>34</sup>.</p> <p>Mae tystiolaeth yn awgrymu bod pobl LHDTC+ yn profi anghydraddoldebau mwy dwys ac</p>	<p>Bydd adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei ddefnyddio i lywio datblygiad yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ymhellach</p>

<sup>33</sup> Arbenigwr Annibynnol y Cenedloedd Unedig ar Gyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth Rhywedd (2021) *The law of inclusion*. <https://undocs.org/A/HRC/47/27>

<sup>34</sup> Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021) *Sexual orientation, UK: 2019* <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/sexuality/bulletins/sexualidentityuk/2019>



Nodwedd neu grŵp gwarchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
		<p>eang o ganlyniad i argyfwng COVID-19<sup>35</sup>.</p> <p>Mae ffigurau'n dangos cynnydd amlwg yn yr achosion o droseddau casineb a gofnodwyd a oedd yn seiliedig ar gyfeiriadedd rhywiol. Yn 2015/16, cofnodwyd 6,700 o ddigwyddiadau ac yn 2019/20 roedd 15,835 o ddigwyddiadau. Mae hyn yn gynydd o 42%<sup>36</sup>.</p> <p>Mae tystiolaeth yn dangos bod bron i hanner yr holl ddisgyblion LHDT yn profi bwlio yn yr ysgol am fod yn LHDT, ac mae mwy na dau o bob pump o bobl ifanc drawsryweddol wedi ceisio cyflawni hunanladdiad<sup>37</sup>.</p> <p>Canfu Arolwg Cenedlaethol LHDT y DU fod nifer fawr o ymatebwyr yn ei chael hi'n anodd cael gofael ar wasanaethau gofal iechyd ac yn enwedig clinigau hunaniaeth rhywedd. Dangosodd yr Arolwg hefyd fod llawer o ymatebwyr wedi cael cwestiynau amhriodol gan staff gofal iechyd, neu y dangoswyd chwilfrydedd amhriodol ganddynt, a bod rhai yn teimlo bod eu hanghenion gofal iechyd penodol wedi cael eu hanwybyddu neu heb eu hystyried<sup>38</sup>.</p> <p>Roedd traean o weithwyr LHDT yng Nghymru (34 y cant) wedi cuddio neu gelu eu bod yn LHDT yn y gwaith yn</p>	

<sup>35</sup> Arbenigwr Annibynnol y Cenhedloedd Unedig ar Gyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth Rhywedd (2020) *Protection against violence and discrimination based on sexual orientation and gender identity* <https://undocs.org/A/75/258>

<sup>36</sup> Swyddfa Gartref y DU (2020) *Official Statistics Hate crime, England and Wales, 2019 to 2020*. <https://www.gov.uk/government/statistics/hate-crime-england-and-wales-2019-to-2020>

<sup>37</sup> Stonewall (2017) *Adroddiad Ysgol Cymru* [https://www.stonewall.org.uk/system/files/adroddiad\\_ysgol\\_stonewall\\_cymru\\_2017.pdf](https://www.stonewall.org.uk/system/files/adroddiad_ysgol_stonewall_cymru_2017.pdf)

<sup>38</sup> Swyddfa Cydraddoldebau Llywodraeth y DU (2018) *National LGBT Survey Research Report* [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/721704/LGBT-survey-research-report.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/721704/LGBT-survey-research-report.pdf)

<b>Nodwedd neu grŵp gwarchoddedig</b>	<b>Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?</b>	<b>Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)</b>	<b>Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau?</b>
		ystod y flwyddyn ddiwethaf am eu bod yn ofni gwahaniaethu <sup>39</sup> .	
Priodas a phartneriaeth sifil	Dim effaith gadarnhaol na negyddol	Amherthnasol	Amherthnasol
Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	Cadarnhaol.	Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant	Bydd adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei ddefnyddio i lywio datblygiad yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ymhellach
Aelwydydd incwm isel	Cadarnhaol. Mae'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ drafft yn cynnig ystod eang o gamau gweithredu ar draws gwahanol feysydd polisi i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau o ran canlyniadau a brofir gan bobl LHDTC+. Er enghraifft, mae pobl LHDTC+ yn wynebu rhwystrau ychwanegol wrth geisio cael gwaith ac amodau gwaith teg. Mae'r cynllun gweithredu'n nodi cynigion sy'n bwriadu gwella dealltwriaeth o bobl LHDTC+ yn y gweithle a helpu i herio'r gwahaniaethu y gallant ei wynebu.	Mae cryn dipyn o ffynonellau tystiolaeth wedi'u hystyried drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ a'r Panel Arbenigol Annibynnol LHDTC+ – mae'r rhain wedi nodi ystod eang o ffactorau economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau sy'n effeithio ar bobl LHDTC+.	Bydd adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei ddefnyddio i lywio datblygiad yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ymhellach

<sup>39</sup> Stonewall (2018) *LHDT yng Nghymru – Adroddiad Gwaith*  
<https://www.stonewallcymru.org.uk/cy/system/files/LHDT%20yng%20Nghymru%20Adroddiad%20Gwaith.pdf>

